COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 19 AWST 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | RJ Collins | DK Edwards |
| A Hussain | MJ Kearn | DRW Lewis | JC Radcliffe |
| RME Stirman | MC Voisey | KJ Watts | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SK Dendy, RM Granville, JC Spanswick, SR Vidal, CA Webster a/ac RE Young

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Lee Evans | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol |
| Rod Jones | Uwch Cyfreithiwr |
| Hayley Kemp | Prif Swyddog Cynllunio |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Leigh Tuck | Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth |

503. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:

Y Cynghorydd JP Blundell – Buddiant personol yn Eitemau 7 a 10 ar yr Agenda, gan ei fod yn aelod o Gyngor Cymuned Tre-laleston, er yn un nad sydd yn cymryd unrhyw ran yn y gwaith o ystyried materion cynllunio.

Y Cynghorydd N Clarke – Buddiant personol yn Eitem 12 ar yr Agenda, gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref Porthcawl, er yn un nad sydd yn cymryd unrhyw ran yn y gwaith o ystyried materion cynllunio.

Y Cynghorydd A Hussain – Buddiant personol yn Eitem 8 ar yr Agenda gan ei fod yn aelod o Ward Penyfai ac yn adnabod yr ymgeisydd.

504. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu â'r dyddiad 8 Gorffennaf 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

505. SIARADWYR CYHOEDDUS

Roedd y canlynol wedi'u gwahodd i'r cyfarfod er mwyn arfer eu hawl i drafod y ceisiadau canlynol fel siaradwyr cyhoeddus:-

Y Cynghorydd CE Smith – Aelod Ward - P/21/605/FUL

A Cassels – Gwrthwynebydd - P/21/605/FUL

506. TAFLEN DIWYGIADAU

PENDERFYNIAD: Nid oedd Taflen Ddiwygio ar gyfer busnes agenda'r cyfarfod heddiw.

507. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNIAD: Bod crynodeb o ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael ei nodi.

508. P/20/328/FUL - TIR YN BROADLANDS HOUSE, BROADLANDS, CF32 0NS

PENDERFYNIAD: (1) Ar ôl ystyried y cais uchod, i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106, er mwyn:

(i) darparu cyfraniad ariannol ar gyfer y swm o £3,117 (wedi'i gysylltu â mynegai) tuag at ddarparu offer chwarae plant a chyfleusterau chwaraeon awyr agored.

(2) Rhoi pwerau dirprwyedig i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad penderfynu sy'n rhoi caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r cynnig hwn, unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod ac yn ddarostyngedig i'r amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig
Adeiladu 3 annedd ar wahân (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig a gwybodaeth ar 09/07/2021)

509. P/20/888/RLX - TIR ODDI AR ALL SAINT’S WAY, PENYFAI, CF31 4BX

PENDERFYNIAD: (1) Ar ôl ystyried y cais uchod, i’r ymgeisydd ymrwymo i Weithred Amrywio neu Rwymedigaeth Gynllunio A106 atodol i sicrhau'r rhwymedigaethau yn y Cytundeb Adran 106 gwreiddiol fel rhan o'r cydsyniad Adran 73 hwn.

(2) Rhoi pwerau dirprwyedig i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad penderfynu sy'n rhoi cydsyniad mewn perthynas â'r cynnig hwn, unwaith y bydd yr ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod ac yn ddarostyngedig i'r amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig
Amrywio amod 1 o P/17/77/FUL (fel y'i diwygiwyd gan P/17/855/NMA) i adlewyrchu fod Plotiau 1 a 4 wedi’u hadeiladu ac i ddiwygio manylion (lleoli a dylunio) Plotiau 2 a 3.

510. P/20/777/FUL - TIR GERLLAW 8 SUNNYSIDE, BRO OGWR, CF32 7AW

PENDERFYNIAD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:-

Cynnig
Cynnig i adeiladu dau dŷ pâr.

511. P/21/605/FUL - 20 SHAKESPEARE AVENUE, CEFN GLAS, CF31 4RY

PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais uchod, er mwyn i Swyddogion allu cynnal ymgynghoriad ar y cynnig:-

Cynnig
Newid defnydd o fod yn annedd (dosbarth defnydd 3(a)) i fod yn lleoliad gofal preswyl i 1 plentyn (dosbarth defnydd C2).

512. P/21/337/FUL - 76 NOLTON STREET, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 3BP

PENDERFYNIAD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cynnig
Newid defnydd o Ddosbarth Defnydd A1 i Ddosbarth Defnydd A3 (tecawê a chludo bwyd).

513. P/21/213/FUL - 21 SPRINGFIELD AVENUE, PORTHCAWL, CF36 3LB

PENDERFYNIAD: Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-

Cynnig
Estyniadau arfaethedig i flaen, cefn ac ochr y ddormer ac i amnewid strwythur teras/deciau am risiau mynediad.

514. APELIADAU

PENDERFYNIAD: Bod y Penderfyniadau Apêl canlynol, fel y'u cynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, ac a benderfynwyd gan yr Arolygydd(wyr) a benodwyd gan Weinidogion Cymru ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, yn cael eu nodi:-

a) Rhif Cod**.** A/21/3271534 (1917) – Testun yr Apêl **–** Annedd deulawr yn sownd wrth annedd bresennol, 10 Eustace Drive, Bryncethin wedi'i leoli ar ochr 91 Nolton Street, Pen-y-bont ar Ogwr – **Gwrthodwyd yr Apêl** (gweler Atodiad A i'r adroddiad)

b) Cod Rhif D/21/3276567 (1923) – Testun yr Apêl – Estyniad unllawr i'r cefn ac estyniad i do'r ddormer: 20 Hillsboro Place, Porthcawl – **Caniatawyd yr Apêl yn Rhannol/Gwrthodwyd yr Apêl yn Rhannol** (gweler Atodiad B i'r adroddiad).

c) Cod Rhif D/21/3277143 (1924) – Testun yr Apêl – Codi'r to i greu Llawr Cyntaf gyda 3 ystafell wely, Ensuite ac Ystafell Ymolchi; estyniad unllawr i'r cefn gyda balconi uwchlaw; canopi dros ddrws ffrynt (ochr) 64 West Park Drive, Porthcawl – **Gwrthodwyd yr Apêl** (gweler Atodiad C i'r adroddiad).

515. ENWEBU A PHENODI I'R IS-BWYLLGOR HAWLIAU TRAMWY

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu ystyried enwebu a phenodi Aelodau i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy.

Cadarnhaodd yr Uwch Gyfreithiwr y cymeradwywyd newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2021, ac o ganlyniad i hyn mae angen ystyried enwebu a phenodi Aelodau i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy.

Mae cyfansoddiad argymelledig yr Is-bwyllgor, yn seiliedig ar nifer yr Aelodau sydd i'w cynnwys, fel a ganlyn:-

Llafur - 2 Aelod – (i gynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu)
Annibynnol/Cynghrair - 1 Aelod
Ceidwadwyr - 1 Aelod
Annibynwyr Llynfi - 1 Aelod
Plaid Cymru - 1 Aelod

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor wedi cytuno i'r Aelodau canlynol gael eu penodi' i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy:-

Y Cynghorydd G Thomas (Cadeirydd)
Y Cynghorydd RM Granville (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd C Webster
Y Cynghorydd MC Voisey
Y Cynghorydd DK Edwards
Y Cynghorydd J Radcliffe

516. COFNOD HYFFORDDIANT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad ar yr uchod a oedd yn trefnu sesiwn hyfforddi ar bwnc Mwynau, gan roi 29 Medi 2021 fel dyddiad dros dro.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp – Datblygu a Chynllunio y bu cais am gynnull sesiwn hyfforddi arall ar bwnc Seilwaith Gwyrdd ac y byddai'n ceisio pennu dyddiad ar gyfer hyn cyn diwedd y flwyddyn.

Byddai'n croesawu unrhyw awgrymiadau pellach gan Gynghorwyr ar gyfer pynciau hyfforddiant i Aelodau maes o law.

PENDERFYNIAD: Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

517. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30